

**CYNLLUN RHEOLI SBWRIEL**

**SIR GAERFYRDDIN**

**2014 - 2018**

“Creu Sir sy'n fwy glân, yn fwy gwyrdd, ac yn fwy diogel”

## RHAGAIR

Y Cynghorydd Colin Evans Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros y Gwasanaethau Technegol	Y Cynghorydd Jim Jones Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd
---	--

"Rydym wedi adolygu ein Cynllun Rheoli Sbwriel, sy'n amlinellu'r trywydd y bydd y cyngor yn ei ddilyn yn y sir yn ystod y pedair blynedd nesaf o ran rheoli sbwriel.

Mae ein cynllun wedi cael ei ddatblygu yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus â'r Panel Dinasyddion a'r Cynghorwyr Sir sy'n cynrychioli cymunedau lleol. Bydd y cynllun hwn yn cael ei gynnwys yn Strategaeth Rheoli Gwastraff yr Awdurdod.

Ni allwn weithredu ein cynllun rheoli sbwriel heb gyfraniad unigryw'r cyhoedd a'n partneriaid, a chyda'n gilydd byddwn yn dal ati i gydweithio'n agos i sicrhau bod ein hamgylchedd yn fwy glân, yn fwy gwyrdd, ac yn fwy diogel".

## **CYNNWYS**

<b><i>CYFLWYNIAD</i></b>	<b><i>1</i></b>
<b><i>BETH YW SBWRIEL?</i></b>	<b><i>1</i></b>
<b><i>SBWRIEL A'R GYFRAITH</i></b>	<b><i>1</i></b>
<b><i>CÔD YMARFER</i></b>	<b><i>2</i></b>
<b><i>YMGYNGHORIAD</i></b>	<b><i>2</i></b>
<b><i>CYNLLUN RHEOLI SBWRIEL</i></b>	<b><i>2</i></b>
<b><i>Seilwaith</i></b>	<b><i>2</i></b>
<b><i>Addysg</i></b>	<b><i>3</i></b>
<b><i>Gorfodi</i></b>	<b><i>3</i></b>
<b><i>Gweithio mewn partneriaeth</i></b>	<b><i>3</i></b>
<b><i>Cynllun Gweithredu</i></b>	<b><i>4</i></b>
<b><i>MONITRO PERFFORMIAD</i></b>	<b><i>4</i></b>
<b><i>POLISI GOFAL CWSMERIAID</i></b>	<b><i>4</i></b>
<b><i>DOLENNI DEFNYDDIOL</i></b>	<b><i>4</i></b>
<b><i>ATODIAD A – Sbwriel a'r Gyfraith</i></b>	
<b><i>ATODIAD B – Cynllun Gweithredu</i></b>	

## **CYFLWYNIAD**

Mae gan Sir Gaerfyrddin amgylchedd naturiol godidog ynghyd â threftadaeth gyfoethog ac amrywiol. Mae eu diogelu a sicrhau eu cyflwr o'r pwys mwyaf.

Mae'r cynllun hwn yn disgrifio sut rydym yn bwriadu diogelu a gwella ein sir amrywiol. Mae'r cynllun yn nodi, mewn modd sydd heb fod yn dechnegol, rwymedigaethau cyfreithiol y cyngor a sefydliadau eraill. Hefyd mae'n rhoi sylw i'r broblem sbwriel y mae'n rhaid i'r cyngor ddelio â hi o ddydd i ddydd a sut y bydd yn mynd ati i'w datrys er mwyn cynnal safonau glendid.

Mae ymwybyddiaeth addysg a gweithgareddau gorfodi yn hollbwysig o ran gweithredu'r cynllun hwn, yn ogystal â chydweithrediad y cyhoedd.

Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau a'n hamcanion.

## **BETH YW SBWRIEL?**

Ystyr **sbwriel** yw eitemau diangen ac eitemau sydd wedi eu defnyddio nad ydynt yn cael eu gwaredu mewn modd priodol. Ymhlith yr enghreifftiau o sbwriel y mae bonion sigarêts, gwm cnoi, papur lapio bwydydd a losin, derbynebaw arian, caniau a photeli diodydd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwastraff hwn yn cymryd blynyddoedd lawer i ddadelfennu, yn effeithio ar yr amgylchedd, ac yn gallu niweidio bywyd gwyllt.

Fodd bynnag gall sbwriel hefyd olygu ystod ehangach o broblemau sy'n gallu gwneud i ardal gyfan edrych yn anniben, yn enwedig y canlynol:

- Graffiti
- Posterï anghyfreithlon
- Gwastraff sydd wedi'i waredu'n anghyfreithlon
- Cerbydau wedi eu gadael
- Baw cŵn (sy'n niweidiol i iechyd pobl)
- Eitemau sy'n gysylltiedig â chyffuriau
- Balwnau a lanternau awyr
- Bagiau plastig (er bod gostyngiad wedi bod ers i Lywodraeth Cymru gyflwyno tâl am fagiau plastig)
- Sgipiau anghyfreithlon neu sgipiau heb drwydded
- Ardaloedd sy'n denu nifer fawr o bobl - manau lle mae pobl yn cyfarfod/ymgasglu a chanol trefi

## **SBWRIEL A'R GYFRAITH**

Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005), yn mynnu bod dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i gadw'r strydoedd a'r manau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt yn rhydd rhag sbwriel.

Mae dyletswydd ar gyrrff statudol, busnesau, sefydliadau addysgol ac unigolion i gadw eu tir yn lân drwy waredu sbwriel a gwastraff mewn modd cyfrifol.

Gallai pobl sy'n cael eu dal yn gollwng sbwriel neu sy'n pallu codi baw eu cŵn gael hysbysiad cosb benodedig o £75, neu, os na fyddant yn talu'r hysbysiad, ddirwy llys o hyd at £2,500. Gallai gwaredu sbwriel neu wastraff mwy sylweddol yn anghyfreithlon olygu y caiff rhywun ddirwy o hyd at £50,000 a/neu gyfnod yn y carchar. Hefyd gallai unrhyw fusnes nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau "dyletswydd gofal" gael ei erlyn a chael dirwy o hyd at £5,000.

Yn aml mae perchnogion tir preifat yn dioddef yn sgil gwaredu sbwriel yn anghyfreithlon a bydd Is-adran Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor yn gweithio gyda'r perchnogion i roi cyngor iddynt am fesurau ataliol.

**I gael rhagor o wybodaeth am y Cyfreithiau a'r Rhwymedigaethau mewn perthynas â Sbwriel, gweler Atodiad A sy'n atodedig.**

### **CÔD YMARFER**

Mae Côt Ymarfer Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn pennu'r canllawiau i Awdurdodau Lleol ar gyfer cynnal safonau glendid ar wahanol fathau o diroedd ac ar gyfer amserau ymateb o ran glanhau.

Bydd y cyngor yn adolygu ei drefn lanhau gyfredol er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol o fewn yr adnoddau a neilltuwyd. Fodd bynnag mae'n bwysig ein bod yn annog pawb i gymryd cyfrifoldeb dros gadw Sir Gaerfyrddin yn lân.

### **YMGYNGHORI**

Rhoddyd gwahoddiad i Gynghorwyr Sir ddod i weithdai ynghylch gweithgareddau rheoli sbwriel a gwastraff, a arweiniodd at adborth oedd yn berthnasol i lunio'r cynllun rheoli sbwriel hwn.

Hefyd cafodd arolwg Panel Dinasyddion ei gynnal yn ystod mis Awst 2013 a chawsom sylwadau a phryderon gan bob cymuned.

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan ein Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd i gynnal adolygiad o'r gwasanaethau gorfodi. Mae'r argymhellion wedi eu cynnwys yn y cam gweithredu sydd yn yr atodiad.

### **CYNLLUN RHEOLI SBWRIEL**

Er bod mwyfwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadw Sir Gaerfyrddin yn rhydd rhag sbwriel, mae angen newid agweddau ac ymddygiad o hyd er mwyn cael pobl i gydnabod bod sbwriela'n wrthgymdeithasol ac yn niweidiol i'r amgylchedd rydym yn byw ynddo. Gellir cael newid o'r fath drwy gynyddu ymwybyddiaeth o sbwriela, ei

achosion, a'i effeithiau.

Ceisia'r Cynllun Rheoli Sbwriel hwn, er mwyn atal a rheoli sbwriel, gyflawni hyn mewn modd cydlynol a chynhwysfawr. Mae'r Cynllun yn pennu amcanion realistig a meusradwy ar gyfer y canlynol:

### **Seilwaith - Ggweithrediadau glanhau**

Gwariodd y cyngor £2.1 miliwn yn 2013/2014 ar weithgareddau glanhau a sbwriel a waredwyd yn anghyfreithlon. Mae'r seilwaith presennol yn darparu'r dulliau i newid ymddygiad. Mae gan Is-adran Gwasanathau Stryd y Cyngor dîm ymroddgar o staff glanhau a pheiriannau ysgubo mecanyddol i lanhau'r sir.

Ceisir ailgylchu cymaint â phosibl o'r sbwriel a gesglir o strydoedd ac ymylon ffyrdd. Bellach mae gan y rhan fwyaf o'n biniau sbwriel gyfleusterau i waredu gwm cnoi a bonion sigarêts yn ddiogel.

Mae ein gwasanaeth yn cael ei fonitro'n allanol ac yn fewnol, a'i adolygu er mwyn gwneud gwelliannau posibl. Hefyd rydym yn gweithio'n agos gyda swyddogion Cadwch Gymru'n Daclus a Threfi Taclus er mwyn rhoi cymorth yn y manau lle mae'r broblem ar ei gwaethaf.

### **Addysg - egluro'r broblem**

Addysg effeithiol yw ein dull mwyaf pwerus ar gyfer newid ymddygiad yn y tymor hir yn y gymuned. Mae addysg yn cynnwys rhoi gwybodaeth, cyflwyno cymhellion, a chyfathrebu effeithiol.

Mae tîm addysg ac ymwybyddiaeth wedi cael ei sefydlu i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadw'r sir yn lân heb sbwriel a gwastraff, ac o ganlyniadau mynd yn groes i ddeddfwriaeth. Cynhelir nifer o fentrau a gweithgareddau i addysgu ac i gynyddu ymwybyddiaeth. Mae'r tîm yn gweithio'n agos iawn gyda'r Uned Gorfodi Materion Amgylcheddol.

### **Gorfodi – atgyfnerthu'r neges**

Mae gan y tîm gorfodi materion amgylcheddol y pwerau a'r ymagwedd flaenweithredol sy'n angenrheidiol i helpu i leihau troseddau amgylcheddol ar draws y sir.

Mae'r rhaglenni atal sbwriel yn cynnwys canlyniadau neu gosbau i atgyfnerthu'r neges nad yw sbwriela'n dderbyniol.

### **Gweithio mewn partneriaeth**

Rydym yn cydnabod gyda diolch ymdrechion gwirfoddol cymunedau o ran herio sbwriela ac yn cydnabod bod angen gweithio mewn partneriaeth, lle mae pawb sy'n rhan ohoni'n cydweithredu ac wedi ymrwymo iddi, er mwyn helpu i waredu'r broblem sbwriel.

Rydym ni wedi ymrwymo i feithrin cysylltiadau gweithio da gyda phartneriaid allanol a'n cymunedau er mwyn cynnal a gwella safonau glendid. Mae gennym bartneriaethau gweithio da gyda'r cyrff a'r cymunedau canlynol ar hyn o bryd:

- Grwpiau cymunedol a gwirfoddol lleol
- Cyngorwyr cyngor sir
- Is-adrannau Tai a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor
- Cyngorau tref a chymuned
- Busnesau/adwerthwyr
- Ysgolion, colegau a phrifysgolion
- Cymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr
- Cadwch Gymru'n Daclus
- Grŵp Taclo Tipio (partneriaeth ar y cyd rhwng Taclo Tipio Cymru/Y Cymoedd)
- Heddlu Dyfed Powys
- Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Brigâd Dân Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Grwpiau rheoli ystadau
- Y wasg a'r cyfryngau

### **Rhoi'r Cynllun Sbwriel Ar Waith**

Mae cynllun blynyddol wedi ei lunio er mwyn rhoi'r Cynllun Rheoli Sbwriel hwn ar waith (gweler Atodiad B). Mae'n cynnwys prif flaenoriaethau'r cyngor a mesurau realistig ar gyfer monitro'r camau gweithredu a'r cynnydd.

### **MONITRO PERFFORMIAD**

Rydym yn defnyddio'r System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol, a ddatblygwyd gan Gadwch Cymru'n Daclus, i helpu i fonitro safonau glendid strydoedd. Caiff strydoedd a ddewisir ar hap eu harolygu ddwywaith y mis gan y cyngor a'u hasesu'n annibynnol gan Gadwch Gymru'n Daclus. Defnyddir yr arolygon i lunio adroddiad ddwywaith y flwyddyn sy'n manylu ar y canlyniadau, a gaiff eu cymharu ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Mae'r canlyniadau ar gael ar wefan Cadwch Gymru'n Daclus o dan Arolygon Ansawdd yr Amgylchedd Lleol.

### **POLISI GOFAL CWSMERIAID**

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl, o fewn yr adnoddau sydd ar gael, i'w gwsmeriaid drwy roi gwybodaeth iddynt a thrwy wrando ar eu pryderon ac ymateb iddynt. Os ydych am roi gwybod am broblemau o ran sbwriel neu faw cŵn, posteri anghyfreithlon, cerbydau wedi eu gadael, graffiti neu waredu sbwriel yn anghyfreithlon, cysylltwch â Galw Sir Gâr drwy ffonio (01267) 234567 neu cwblhewch y ffurflen rhoi gwybod ar-lein drwy fynd i'r wefan isod.

**Mae copi o'r Cynllun Rheoli Sbwriel ar ein gwefan**

**<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/biniau,-ailgylchu-a-sbwriel/sbwriel/>**

**Cysylltwch â ni os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn print bras, Braille neu ar dâp sain.**

### **DOLENNI DEFNYDDIOL**

[www.naturalresourceswales.org.uk](http://www.naturalresourceswales.org.uk)

[www.keepwalestidy.org](http://www.keepwalestidy.org)

[www.mawwfire.gov.uk](http://www.mawwfire.gov.uk)

[www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

[www.flytippingactionwales.org](http://www.flytippingactionwales.org)



## **Atodiad A**

### **CYFREITHIAU A RHWYMEDIGAETHAU SBWRIEL**

#### **Lleoedd Cyhoeddus**

Os ydych chi'n berchen ar le y mae gan y cyhoedd fynediad iddo, neu os taw chi sydd â chyfrifoldeb dros y lle, mae rheidrwydd arnoch i gadw'r lle'n rhydd rhag sbwriel, ni waeth o ble y mae'r sbwriel wedi dod. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw le cyhoeddus a allai gynnwys rhodfeydd canolfan siopa, campws ysgol, parc cyhoeddus, gorsaf drenau neu orsaf fysiau.

#### **Eiddo Preifat**

Mae rheidrwydd ar berchennog neu ddeiliad eiddo y gellir ei weld o le cyhoeddus i'w gadw'n rhydd rhag sbwriel. Lle bo sbwriel wedi crynhoi ar eiddo am ba reswm bynnag, a lle bo'r sbwriel yn weladwy o le cyhoeddus, gall y Cyngor Sir roi hysbysiad i'r perchennog neu'r deiliad yn gofyn am i'r sbwriel gael ei waredu'n syth.

#### **Gwaredu sbwriel yn anghyfreithlon**

Os bydd y Cyngor Sir yn dod o hyd i ddeunydd sydd wedi'i waredu'n anghyfreithlon ac yn cael gwybod pwy sydd yn berchen ar y deunydd, gallai'r person hwnnw gael ei erlyn a chael dirwy drom. Hefyd gall y Cyngor ei gwneud yn ofynnol i breswlydd neu weithredwr busnes ddweud sut a ble roedd yn gwaredu ei wastraff. Mae ganddynt gyfrifoldeb "dyletswydd gofal" i sicrhau bod gan y casglwr gwastraff nodyn trosglwyddo gwastraff i brofi bod y gwastraff yn cael ei gludo i gyfleuster gwaredu gwastraff awdurdodedig. Os byddwch yn gweld rhywun yn tipio'n anghyfreithlon, rhowch wybod i'r Cyngor ac fe wnaiff ymchwilio i'r mater a chymryd unrhyw gamau gorfodi angenrheidiol.

#### **Digwyddiadau Mawr**

Mae'n ofynnol i hyrwyddwyr neu drefnwyr digwyddiadau mawr sicrhau bod ganddynt fesurau rheoli sbwriel yn y man cynnal ac yn y cyffiniau cyn, yn ystod, ac ar ôl y digwyddiad. Mae hyn yn berthnasol i gemau pêl-droed/rygbi a digwyddiadau cymdeithasol a chwaraeon eraill y mae torfeydd mawr yn mynd iddynt.

#### **Gwerthwyr Bwyd Symudol**

Mae rheidrwydd ar werthwyr bwyd symudol sy'n gwerthu cludfwyd neu ddiodydd, neu fannau gwerthu eraill tebyg, i ddarparu biniau sbwriel addas ger eu mannau gwerthu. Hefyd mae'n rhaid iddynt lanhau unrhyw sbwriel sy'n deillio o weithrediad eu mannau gwerthu o fewn cylch o 100 metr o'u mannau gwerthu.

## **Cŵn yn Baeddu**

Mae'n rhaid i berchnogion cŵn godi baw eu cŵn o leoedd cyhoeddus a'i waredu mewn modd priodol drwy ei roi yn y bin sbwriel cywir (ac eithrio bin ailgylchu), neu, os nad oes bin ar gael, fynd ag ef adref i'w waredu'n gyfrifol. Gallai unrhyw un sy'n cael ei ddal yn methu codi baw ei gŵn gael dirwy o £75.

Mae'r rhwymedigaeth hon yn berthnasol i'r llefydd canlynol ar hyn o bryd:

- llwybrau troed a ffyrdd cyhoeddus dynodedig
- ardaloedd o amgylch canolfannau siopa
- tiroedd ysgolion/meysydd chwaraeon

## **Gorchmynion Rheoli Cŵn**

O dan Ddeddf newydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throseddau a Phlisma 2014, bydd awdurdodau lleol yn gallu cyflwyno gorchmynion penodol ledled y sir. Bydd gofyn ar y Cyngor i ymgynghori ar ein bwriad i wneud y Gorchmynion hyn a rhoi cyhoedduswydd i Orchymyn wedi iddo gael ei wneud.

Bydd gwybodaeth am y ddeddfwriaeth ar gael ar ein gwefan maes o law.

## **Posterï ac Arwyddion**

Yn ôl y gyfraith mae cyfyngiad ar osod posterï/arwyddion ar bolion neu strwythurau eraill mewn lleoedd cyhoeddus oni bai eich bod wedi cael caniatâd ysgrifenedig gan y perchennog. Ar gyfer lleoedd sydd mewn perchennogaeth breifat, ymgynghorwch ag adran gynllunio'r Cyngor.